



# Ffurflen Aelodaeth

Ein gweledigaeth yw cynnal **canolfan ragoriaeth** mewn polisi a chynllunio iaith sy'n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol eraill.

Amcanion y ganolfan yw:

- darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu arferion dwyieithog;
- cynnal ymchwil a phrosiectau datblygol mewn perthynas â pholisi a chynllunio iaith;
- hyrwyddo gweithgareddau addysgiadol a hyfforddiant proffesiynol yn y maes.

• **Hyrwyddo'r Gymraeg**

• **Cefnogi'r proffesiwn**

• **Datblygu dwyieithrwydd**

• **Hwyluso trafodaeth**

Sefydlwyd IAITH yn 1993 i gynnig cyngor proffesiynol yng nghyswllt hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu arferion dwyieithog. Bellach mae ysgogi a hwyluso trafodaeth gyhoeddus ar faterion perthnasol yn rhan bwysig o waith y Ganolfan.

Mae defnyddwyr y Ganolfan yn cynnwys prif gyrff cyhoeddus Cymru a sefydliadau mewn cymunedau iaith eraill ym Mhrydain ac Ewrop.

Trefnir ein gweithgaredd ar sail:

- cynnig **cyngor** ac arweiniad i sefydliadau a chymdogaethau lleol,
- gweithredu prosiectau **ymchwil** a datblygu blaengar,
- darparu addysg a **hyfforddiant** mewn polisi a chynllunio iaith,
- hyrwyddo **trafodaeth** ar faterion polisi a gweithredu,
- rheoli **prosiectau** sy'n cynnal hyfywedd y Gymraeg.

## Pam ymaelodi?

Croesawir sefydliadau ac unigolion sy'n cefnogi amcanion y Ganolfan i ymuno â ni er mwyn:

- cadw mewn cyswllt â datblygiadau yn y maes cynllunio iaith,
- cyfrannu i'r drafodaeth genedlaethol ar faterion iaith,
- mynegi barn ar anghenion proffesiynol y maes,
- datblygu syniadau ar gyfer prosiectau a mentrau newydd,
- rhwydweithio â chyrrff ac unigolion o ddiddordebau tebyg.

## Aelodaeth Gorfforaethol

### Buddiannau:

- Penodi hyd at 3 pherson cyswllt i dderbyn gwybodaeth am weithgareddau'r Ganolfan.
- Cyfle i rwydweithio â chyrff ac unigolion eraill â diddordeb mewn cynllunio iaith.
- Cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth ynglŷn a pholisi a chynllunio iaith mewn digwyddiadau neilltuol i aelodau.
- Cyfle i dderbyn cylchlythyr aelodau achlysurol.
- Cyfle i gael copïau o'n cyhoeddiadau cyffredinol yn rhad ac am ddim.
- Cyfle i dderbyn gwasanaethau'r Ganolfan ar raddfa ostyngol o 5%.
- Un bleidlais yn y CCB.

## Aelodaeth Unigol Lawn

### Buddiannau:

- Derbyn gwybodaeth am weithgareddau'r Ganolfan.
- Cyfle i rwydweithio â chyrff ac unigolion eraill â diddordeb mewn cynllunio iaith.
- Cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth ynglŷn a pholisi a chynllunio iaith mewn digwyddiadau neilltuol i aelodau.
- Cyfle i dderbyn cylchlythyr aelodau achlysurol.
- Un bleidlais yn y CCB.

## Aelodaeth Unigol 'Cynllunwyr Iaith Cymru' – ar agor i broffesiynolion yn y maes

### Buddiannau:

- Derbyn gwybodaeth am weithgareddau'r Ganolfan.
- Dim pleidlais yn y CCB.
- Cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth ynglŷn a pholisi a chynllunio iaith mewn digwyddiadau neilltuol i aelodau 'Cynllunwyr Iaith Cymru'.

## Categori a Thâl Aelodaeth

Aelodaeth gorfforaethol	Cyrff cyhoeddus a sefydliadau dros £1M o droiant	£250	✓
	Cyrff gwirfoddol gyda llai na £1M o droiant ynghyd ag Adrannau Prifysgol	£100	
	Grwpiau cymunedol	£50	
Aelodaeth unigol	Aelodaeth unigol lawn	£25	
	Aelodaeth o 'Cynllunwyr Iaith Cymru'	AM DDIM	

Enw Cyswllt

Sefydliad

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

E-bost

Amgaeaf sic e yn daladwy i IAITH Cyf.

Anfoneber i'r cyfeiriad uchod.

Dychweler at: IAITH Cyf., Uned 3, Parc Busnes Aberarad, Castellnewydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DB



Trydar Gall unrhyw un ddilyn Trydar IAITH ar [Twitter@iaith](https://twitter.com/iaith) trwy gofrestru ar y wefan – [www.iaith.eu](http://www.iaith.eu)

post@iaith.eu | [www.iaith.eu](http://www.iaith.eu) | Rhif cofrestru cwmni: 2803324 | Rhif elusen gofrestrdig: 1130052